

Nodyn Esboniadol y Polisi Dynodi Diwygiedig



Medi 2021

Nodyn Esboniadol y Polisi Dynodi Diwygiedig

Medi 2021

Rydym wedi cyhoeddi [Polisi Dynodi](#) diwygiedig yn dilyn adolygiad ac mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r newidiadau ac yn esbonio sut rydym yn rhagweld y bydd y polisi'n cael ei gymhwyso mewn prosiectau diwygio yn y dyfodol.

Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydym yn rheoleiddio cymwysterau, cyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hynny a'r system gymwysterau. Rydym yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sydd wedi cael cydnabyddiaeth, ac er mwyn parhau i gael eu cydnabod gennym ni, rhaid i'r cyrff dyfarnu gydymffurfio â'n gofynion yn barhaus, ac rydym yn monitro ac yn adolygu eu cydymffurfiaeth dros amser. Rydym yn gwneud hyn er mwyn bodloni ein nodau statudol, sef sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd.

Er mwyn cyflawni ein nodau, mae gennym ystod o bwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol a nodir yn [Neddf Cymwysterau Cymru \(2015\)](#). Mae adran 29 o'r Ddeddf yn disgrifio ein pwerau i ddynodi cymwysterau.

Beth yw dynodi a beth yw cymhwyster dynodedig?

Mae Cymwysterau Dynodedig yn un o dri chategori o gymwysterau yr ydym yn eu rheoleiddio, ar y cyd â chymwysterau Cymeradwy a Rheoleiddiedig Eraill.



Cymwysterau Cymeradwy yw cymwysterau lle rydym wedi nodi bwlch neu angen yn y farchnad nad yw'n cael ei gwasanaethu gan gymwysterau sy'n bodoli eisoes ac felly rydym wedi defnyddio ein pwerau drwy gyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo i sicrhau bod cymhwyster sy'n diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru yn cael ei ddatblygu. Drwy gyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo, rhaid i gyrff dyfarnu cydnabyddedig ddangos y byddant yn cydymffurfio â'r Meini Prawf hyn cyn y caniateir iddynt gynnig y cymwysterau hynny. Rhaid i'r holl gymwysterau Cymeradwy fodloni ein holl ofynion gymwyster-benodol, gan gynnwys, er enghraifft, eu bod yn addas i'r diben yng Nghymru a'u bod ar gael yn Gymraeg. Mae'r holl gymwysterau Blaenoriaethol (sydd wedi'u cynnwys ar y Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol, sefg dogfen sy'n eiddo i ni a Gweinidogion Cymru ar y cyd) yn gymwysterau Cymeradwy.

Mae **Cymwysterau Dynodedig** ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn ogystal â'r tu allan i Gymru gan eu bod fel arfer yn cael eu datblygu mewn manau eraill ledled y DU. Rhaid i gyrff dyfarnu gyflwyno eu cymwysterau i'w dynodi ac os ydynt yn bodloni ein gofynion dynodi, yna byddwn yn eu dynodi yn unol â'n Polisi Dynodi. Rydym yn dynodi'r cymwysterau hyn am gyfnod penodol a gall gyrff dyfarnu gyflwyno'r cymhwyster am gyfnodau pellach o ddynodi.

Mae cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau hyfforddiant neu addysg i ddysgwyr o dan 19 oed a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r trydydd categori o gymwysterau rheoleiddiedig, o'r enw 'Eraill'¹ yn gymwys i hawlio cyllid fel hyn.

Diben ein polisi dynodi

Mae'r Polisi Dynodi yn amlinellu ein dull o ymdrin â chymwysterau dynodedig ac mae'n ymdrin â'r materion yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi cymhwyster ai peidio, ac am ba gyfnod o amser (a elwir yn gyfnod dynodi). Mae'r polisi hefyd yn nodi ein dull o benderfynu a ddylid dirymu dynodiad yn ogystal â phennu diben neu ddibenion e.e. y gellir cynnig y cymhwyster i ddysgwyr penodol ac i oedrannau penodol, ac mewn lleoliadau penodol fel ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant ac unedau cyfeirio disgyblion.

Mae ein prosesau hefyd wedi'u nodi yn y polisi a cheir mwy o fanylion ar gyfer Cyrff Dyfarnu yn y [Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau](#).

¹ Mae'r holl gymwysterau yr ydym yn eu rheoleiddio yn dod o fewn un o dri chategori - Cymeradwy, Dynodedig a Rheoleiddiedig Eraill.

Pam y gwnaethom adolygu'r Polisi Dynodi?

Trefnwyd i'r Polisi Dynodi gael ei adolygu yn 2020-21. Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym wedi cynnwys mwy o fanylion am bwerau statudol sydd gennym eisoes yn rhinwedd y Ddeddf ond nad oeddem wedi eu nodi'n fanwl mewn fersiynau blaenorol o'r polisi. Y rhain yw **dynodi at ddibenion penodol** a chymwysterau sydd **yr un fath neu'n debyg** i gymwysterau Cymeradwy. Roeddem am gynnwys mwy ar yr agweddau hyn oherwydd ein bod yn rhagweld defnyddio'r pwerau hyn yn ein gwaith diwygio sydd ar y gweill; er enghraifft, wrth sicrhau cymwysterau cyn-16 newydd i gefnogi'r cwricwlwm newydd ac mewn diwygiadau i gymwysterau'r Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r polisi ac yn ei ddeall, sut y bydd yn gweithio'n ymarferol a goblygiadau i gyrrff dyfarnu a chanolfannau.

Beth yw'r prif ddiwygiadau rydym wedi'u gwneud i'r Polisi Dynodi?

Y ddau ddiwygiad allweddol yr ydym wedi'u gwneud i'r fersiwn hon o'r polisi Dynodi yw:

1. Cymwysterau sydd yr un fath ac yn debyg; a
2. Dynodi at ddibenion penodol.

Esbonnir y ddau yn fanylach isod.

Cymwysterau sydd yr un fath / yn debyg

Fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015, ni all cymwysterau Dynodedig fod yr un fath nac yn debyg i gymwysterau Cymeradwy. Yn ogystal â hynny, pan fyddwn yn cyfyngu ar nifer y ffurfiau ar gymhwyster, rhaid inni sicrhau nad oes unrhyw ffurfiau eraill o'r cymhwyster yn aros yn y system. Y rheswm am hyn yw mai rhan o'n cylch gwaith yw sicrhau bod y cymwysterau a gynigir yn y system yn addas i'r diben i ddysgwyr yng Nghymru a'u bod yn rhoi gwerth am arian. Fel hyn, rhaid inni sicrhau bod yr arlwy cenedlaethol o gymwysterau yn gydlynol ar y cyfan, sy'n golygu bod lefel ddigonol o ddewis i ddysgwyr a lefel iach o gystadleuaeth heb ddyblygu diangen na chystadleuaeth ddibwys. Bydd y Meini Prawf Cymeradwyo wedi'u datblygu gennym i ddiwallu angen a nodwyd neu i fynd i'r afael â mater penodol; felly, dyma'r cymhwyster y dylai dysgwyr ei astudio at y diben hwn ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus. Gallai argaeledd cymwysterau dynodedig tebyg neu'r un fath danseilio bwriad ein gwaith diwygio.

Mae'r Polisi Dynodi diwygiedig yn cynnwys adran gymwysterau tebyg / yr un fath ac yn esbonio pan benderfynir bod cymwysterau Dynodedig yr un fath neu'n debyg, yna byddant yn cael eu dirymu.

Mae cyfnodau amser lle mae cymwysterau Dynodedig yn fwyaf tebygol o gael eu nodi fel cymwysterau sydd yr un fath neu'n debyg i gymhwyster Cymeradwy. Dyma nhw:

- Pan gyflwynir cymhwyster newydd i'w ddynodi, a phenderfynwn ei fod yr un fath neu'n debyg i gymhwyster Cymeradwy neu Feini Prawf Cymeradwyo ac rydym yn gwrthod y cais; a
- Phan fyddwn yn cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwy, penderfynir bod cymwysterau Dynodedig cyfredol yr un fath neu'n debyg i'r cymhwyster Cymeradwy a chânt eu dirymu.

Mae diagram llif sy'n disgrifio'r broses o nodi cymwysterau dynodedig sydd yr un fath neu'n debyg i gymwysterau Cymeradwy/Meini Prawf Cymeradwyo ar adeg cyflwyno'r cymhwyster i'w ddynodi ar gael yma.

Bydd ein gwaith o ddiwygio cymwysterau, gan gynnwys y rhai i gefnogi'r cwricwlwm newydd, yn golygu ei bod yn debygol y bydd penderfyniadau ynghylch cymwysterau sydd yr un fath / yn debyg yn cael eu gwneud wrth i ni ystyried cyflwyno cymwysterau Cymeradwy newydd.

Dynodi at ddibenion penodol

Mae Deddf Cymwysterau Cymru yn ein galluogi i ddynodi cymhwyster at ddibenion penodol. Mae hyn yn golygu ein bod yn caniatáu i gorff dyfarnu gynnig y cymhwyster o dan rai amgylchiadau neu i'r gwrthwyneb, gallwn bennu o dan ba amgylchiadau nad ydym yn caniatáu i'r cymhwyster gael ei gynnig. Gallai amgylchiadau penodol olygu pennu cynulleidfaoedd penodol, megis grwpiau dysgwyr, er enghraifft, y rhai dros 16 oed. Neu gallem ddynodi'r cymhwyster i'w ddefnyddio mewn mathau penodol o ganolfannau, er enghraifft, colegau addysg bellach.

Yn arbennig, lle rydym yn nodi na all cymwysterau Cymeradwy fynd i'r afael ag anghenion rhai dysgwyr, gallwn ddynodi at ddibenion penodol i sicrhau bod anghenion rhesymol dysgwyr yn cael eu diwallu.

Gellir pennu dynodiad at ddibenion penodol ar wahanol adegau:

- Pan fyddwn yn derbyn cais i Ddynodi cymhwyster, gallem ddynodi at ddibenion penodol, a fyddai'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir neu na ellir cynnig y cymhwyster; ac
- Yn ystod oes cymhwyster Dynodedig, efallai y byddwn yn nodi bod cymhwyster yr un fath neu'n debyg i gymhwyster Cymeradwy ac er y gallwn ddirymu'r cymhwyster, gallwn hefyd ddynodi at ddibenion penodol lle mae'r

cymhwyster dynodedig yn bodloni angen neu fwlch yr ydym wedi'i nodi na all y cymhwyster Cymeradwy ei fodloni.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gyrff Dyfarnu?

- Os ydych chi'n bwriadu adolygu cymhwyster neu ddatblygu un newydd, mae angen i chi ystyried sut y bydd yn diwallu anghenion y dyfodol ac yn cyd-fynd â'n gwaith diwygio cymwysterau.
- Cyn gwneud cais am ddynodiad, gofynnwn i Gyrff Dyfarnu wirio a oes unrhyw gymwysterau Cymeradwy neu Feini Prawf Cymeradwy cyhoeddiedig sydd yr un fath / yn debyg i'r cymhwyster y maent am ei gyflwyno i'w ddynodi.
- Os oes gan gorff dyfarnu gymwysterau dynodedig presennol, gall Meini Prawf Cymeradwy yr ydym yn eu cyhoeddi neu ar fin eu cyhoeddi effeithio ar y rhain, lle nodir eu bod yr un fath neu'n debyg. Gallwn ddirymu dynodiad neu newid y dynodiad – gan nodi pa ddibenion y gellir neu na ellir cynnig y cymhwyster (e.e. ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn unig). Mae gan y Polisi Dynodi fwy o fanylion am y broses o ddirymu cymhwyster dynodedig gan gynnwys sylwadau gan gyrff dyfarnu.
- Yn unol â'r Amodau Cydnabod Safonol, rhaid i Gyrff Dyfarnu reoli unrhyw newidiadau mewn statws cymwysterau ac mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle caiff cymwysterau dynodedig eu dirymu neu pan gyflwynir dibenion penodol. Rhaid i Gyrff Dyfarnu fod â chynllun ar waith i ddiogelu buddiannau dysgwyr (gweler Amod D6 a'r canllawiau cysylltiedig). Mae rhoi gwybod i ddysgwyr, canolfannau a phrynwyr am y cymhwyster yr effeithir arno yn hollbwysig er mwyn rheoli newid yn effeithiol.

Beth mae hyn yn ei olygu i ganolfannau?

- Bydd angen i ganolfannau sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer y cymwysterau yr effeithir arnynt ar hyn o bryd fod yn effro i newidiadau gan gynnwys y dyddiadau gorffen ar gyfer y cymwysterau dynodedig hyn gan na fyddant yn gallu dechrau dysgwyr ar gymwysterau ar ôl y Dyddiad Dechrau Dysgwyr Sydd Mwyaf Tebygol (h.y. y dyddiad olaf y gall dysgwr ddechrau cwrs sy'n eu paratoi ar gyfer cymhwyster sy'n dod i ben ar sail model fwyaf cyffredin).
- Mewn achosion lle mae cymhwyster wedi'i ddynodi at ddiben(ion) penodol, bydd angen i Ganolfannau fod yn ymwybodol o'r dibenion penodol hynny er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r cymwysterau hynny fel y bwriadwyd ar gyfer lleoliadau penodol neu grwpiau dysgwyr a hawlio cyllid mewn modd sy'n cydymffurfio.

- Er mwyn helpu canolfannau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diwygio cymwysterau, rydym yn cynhyrchu cylchlythyr i randdeiliaid, sef [Y Llechen](#), y gall canolfannau danysgrifio iddo. Mae'r holl gymwysterau rydym yn eu rheoleiddio ar ein cronfa ddata cymwysterau, QiW, yn cynnwys y cyfnodau y mae cymwysterau Cymeradwy a Dynodedig yn fyw ac ar gael i ddysgwyr.

Sut bydd y polisi'n gweithio'n ymarferol?

Yn yr adran flaenorol, rydym wedi disgrifio'r ddau brif ychwanegiad i'r polisi Dynodi diwygiedig.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, fe welwch ddau ddiagram proses sy'n crynhoi sut rydym yn bwriadu defnyddio'r polisi Dynodi yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Pan gyflwynir cymhwyster newydd i'w ddynodi (Atodiad A); a
- Phan fyddwn yn asesu cymwysterau presennol o ganlyniad i gymeradwyo cymhwyster newydd neu oherwydd ein bod wedi cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo newydd (Atodiad B).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau diwygio cymwysterau lle rydym yn rhagweld defnyddio'r polisi Dynodi yn y dyfodol. Dyma'r tair enghraifft:

1. Datblygu cymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru; a
2. Dwy ffrwd waith o fewn Cymwys ar gyfer y Dyfodol:
 - a. Sicrhau cymwysterau TGAU sydd newydd eu diwygio i gefnogi'r cwricwlwm newydd; a
 - b. Sicrhau'r arlwy ehangach i ddysgwyr cyn 16 oed i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Datblygu cymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru

Yn ddiweddar, rydym wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru Lefel 3, a fydd yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) Lefel 3 gyfredol.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Lefel 3 gyfredol wedi bod yn destun gwaith gwerthuso ac adolygu sylweddol, gan arwain at ofynion dylunio newydd y buom yn ymgynghori arnynt. Yn dilyn ymgynghori, cafodd y gofynion eu mireinio a'u defnyddio i gynhyrchu'r Meini Prawf Cymeradwyo, sy'n disgrifio diben y cymhwyster newydd ac yn amlinellu'r gofynion dylunio. Bydd y corff dyfarnu a gomisiynwyd yn

awr yn dechrau ar y gwaith manwl o ddatblygu cymwyster i fodloni gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Ein bwriad yw, lle mae anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu gan gymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru Lefel 3, mai dyma'r unig gymhwyster fydd ar gael i'r dysgwyr hynny, gan y byddai argaeledd cymwysterau dynodedig sydd yr un fath neu'n debyg yn tanseilio bwriad y gwaith diwygio. Byddwn yn cynnal ymarfer i benderfynu a oes unrhyw gymwysterau dynodedig sydd yr un fath neu'n debyg i'r cymhwyster newydd, a lle y byddwn yn dod i'r casgliad bod yna, bydd y cymwysterau hynny'n cael eu dirymu oni bai ein bod yn dynodi at ddiben penodol oherwydd angen neu fwllch yr ydym wedi'i nodi ac nad ydynt yn tanseilio'r cymhwyster Cymeradwy.

Byddwn yn ysgrifennu at Gyrrff Dyfarnu yn y flwyddyn newydd gyda manylion pellach am y broses a'r amserlen.

Cymwys ar gyfer y Dyfodol

Sicrhau cymwysterau TGAU sydd newydd eu diwygio i gefnogi'r cwricwlwm newydd

Mae'r ymgynghoriad diweddar *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y Dewis Cywir i Gymru* wedi pennu'r ystod o bynciau a ddylai fod ar gael fel cymwysterau TGAU yn y dyfodol, yn ogystal â chymwysterau eraill a wneir ar gyfer Cymru, i gefnogi cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cwricwlwm newydd ar waith o 2023, gyda'r garfan gyntaf o ddysgwyr yn ymgymryd â'r cymwysterau newydd o 2025 ymlaen.

Mae'r ystod o bynciau a fydd ar gael fel TGAU yn cynnwys pynciau newydd.

Unwaith y bydd yr holl gymwysterau TGAU newydd a'r cymwysterau eraill a wnaed i Gymru wedi bod drwy'r broses ddatblygu, bydd ganddynt statws Cymeradwy. Ni ellir dynodi cymwysterau sy'n cael eu hystyried yr un fath neu'n debyg i gymwysterau Cymeradwy.

Felly, bydd cymwysterau Dynodedig cyfredol sydd yr un fath neu'n debyg i'r cymwysterau TGAU Cymeradwy newydd neu'r cymwysterau eraill a wnaed i Gymru mewn agweddau fel diben a chynulleidfa yn cael eu dirymu oni bai eu bod wedi'u dynodi i ddiwallu angen neu fwllch penodol yr ydym wedi'i nodi ac nad ydynt yn tanseilio nac yn gorgyffwrdd â'r cymhwyster Cymeradwy.

Sicrhau'r arlwy ehangach i ddysgwyr cyn 16 oed i gefnogi'r cwricwlwm newydd

Mae 'Pennu'r ystod o gymwysterau a astudir yn 16 oed yn y dyfodol fel rhan o'r cynnig ehangach' yn ffrwd waith o fewn trydydd cam y prosiect *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*. Yn ei hymgyngoriad cyntaf *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, gwnaethom ymrwymo i ystyried pa gymwysterau eraill ddylai fod ar gael fel rhan o'r arlwy gyfan o gymwysterau 14-16 er mwyn 'cyfrannu at gynnig cydlynol a chynhwysol' i ddiwallu anghenion pob dysgwr yng Nghymru.

Yr arlwy ehangach presennol o gymwysterau yw'r cymwysterau sydd y tu allan i'r prif arlwy TGAU. Ar hyn o bryd mae dros 1,400 o gymwysterau ar gael cyn 16 oed, lle mae tua 1,100 yn gymwysterau Dynodedig. Wrth ystyried yr arlwy ehangach o gymwysterau yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio ein gweithgarwch adolygu cymwysterau a safbwyntiau rhanddeiliaid i lywio'r cynnig yn rhagweithiol. Os yw ein gwaith yn nodi'r angen, er enghraifft, i gyflwyno cymwysterau Cymeradwy ychwanegol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru, efallai y byddwn yn defnyddio'r polisi hwn i ddirymu cymwysterau Dynodedig sydd yr un fath neu'n debyg i'r cymwysterau Cymeradwy, neu ddiwygio'r diben y gellir dynodi cymhwyster ar ei gyfer e.e., heb ei ddynodi ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ond wedi'i ddynodi ar gyfer 19+.

Camau nesaf

Wrth i'r prosiectau hyn fynd rhagddynt, byddwn yn cyfathrebu â Chyrff Dyfarnu a Chanolfannau drwy ein cylchlythyrau, cyfarfodydd a llythyrau rheolaidd at Swyddogion Cyfrifol.

Yn ystod y misoedd nesaf rydym yn bwriadu ysgrifennu at Gyrrff Dyfarnu am ffrwd waith yr arlwy ehangach ac yn ddiweddarach, yn y flwyddyn newydd, byddwn yn rhannu gwybodaeth am gymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru.

Rhagor o wybodaeth

[Polisi Dynodi](#)

[Rheolau am geisiadau i dynodi](#)

[Fframwaith a Dull Rheoleiddio](#)

Atodiad A: Nodi ac asesu cymwysterau sydd yr un fath / yn debyg pan gyflwynir cymhwyster newydd i'w ddynodi

Corff Dyfarnu Cydnabyddedig yn cyflwyno cymhwyster i'w ddynodi.

Mae Cymwysterau Cymru yn ystyried y cais, gan gynnwys a yw cymhwyster yr un peth / yn debyg i gymhwyster Cymeradwy neu gymhwyster yr ydym wedi cyhoeddi neu ar fin cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo ar ei gyfer, ac yn cynnal gwiriadau yn unol â'r polisi Dynodi.

Cam 1. Girardeau cychwynnol yr un fath/tebyg.

Mae'r ystyriaethau'n cynnwys, er enghraifft, maes pwnc, lefel, cynulleidfa, pwrpas.

Cam 2. Gwiriadau pellach yr un fath / tebyg.

Mae'r ystyriaethau'n cynnwys, er enghraifft, strwythur a maint, meini prawf asesu, dulliau asesu.

Cam 3. Gwiriadau ychwanegol dewisol.

A yw'r cymhwyster Dynodedig yn gwasanaethu angen na all y cymhwyster/cymwysterau Cymeradwy ei wasanaethu?

Cymhwyster YN cael ei ystyried yr un fath / yn debyg i gymhwyster Cymeradwy.

NA:
Cymhwyster heb ei ddynodi.
Hysbysu'r Corff Dyfarnu.

YDY: Gellir dynodi cymhwyster at ddiben penodol. (Cyhyd â'i fod hefyd yn bodloni'r holl ofynion Dynodi perthnasol)
Hysbysu'r Corff Dyfarnu am benderfyniad gan gynnwys cyfnod dynodi.

Mae'r cymhwyster yn bodloni'r holl ofynion Dynodi perthnasol fel yr amlinellir yn y Rheolau ynghylch Ceisiadau am Ddynodi Cymwysterau.

ac yn dilyn hynny:

Rydym yn penderfynu y byddwn yn dynodi'r cymhwyster. Bydd hyn yn cynnwys pennu'r cyfnod dynodi, fel arfer am gyfnod o 5 mlynedd. Gall hyn hefyd gynnwys pennu'r dibenion.

Cymhwyster DDIM yn cael ei ystyried yr un peth / yn debyg i gymhwyster Cymeradwy neu unrhyw Feini Prawf Cymeradwyo rydym wedi'u cyhoeddi neu ar fin eu cyhoeddi.

YDY: Dynodi'r cymhwyster.

Hysbysu'r Corff Dyfarnu am benderfyniad gan gynnwys cyfnod dynodi.



Ymwadiad

Mae'r diagram hwn yn ddangosol yn unig ac mae'r gweithdrefnau a'r prosesau y cyfeirir atynt wedi'u crynhoi a'u symleiddio at ddibenion enghraifftiol ac er eglurder.

Atodiad B: Asesu cymhwyster dynodedig sydd eisoes yn bodoli pan fydd cymhwyster newydd wedi'i gymeradwyo neu fod Meini Prawf Cymeradwyo newydd wedi'u cyhoeddi

Mae cymhwyster newydd yn cael ei gymeradwyo neu mae Meini Prawf Cymeradwyo yn cael eu cyhoeddi neu ar fin cael eu cyhoeddi. Bydd angen asesu cymwysterau Dynodedig sydd eisoes yn bodoli i benderfynu a ydynt yr un fath / yn debyg.

Mae Cymwysterau Cymru yn nodi'r cymhwyster Dynodedig sydd eisoes yn bodoli a all fod yr un fath / yn debyg ac yn cynnal gwiriadau yn unol â'r polisi Dynodi.



Ymwadiad

Mae'r diagram hwn yn ddangosol yn unig ac mae'r gweithdrefnau a'r prosesau y cyfeirir atynt wedi'u crynhoi a'u symleiddio at ddibenion enghraifftiol ac er eglurder.